Dylem yn y lle cyntaf roi clod i'n staff a'n gwirfoddolwyr am fownsio'n ôl gystal ar ôl pandemig COVID-19 – mae hynny'n amlwg o nifer y cŵn rydym yn eu helpu a'r holl waith a gweithgareddau a ddisgrifir ar y tudalennau canlynol. O'r siopau y daw llawer o'n hincwm, ac maent wedi gwneud yn well na'r disgwyl mewn amgylchedd na ellir ond ei ddisgrifio fel un hynod heriol. Rydym wrth ein boddau yn gweld sut mae'r rhaglen Cŵn Therapi wedi datblygu, gan gael hwb enfawr gwirfoddolwyr brwdfrydig. Helpu milgwn a chŵn potsiwr yw ein pwrpas craidd ac ni fydd yr un ohonom yn blino eu gweld, un ar ôl y llall, yn gwella ac yn datblygu yn ein gofal ac yna'n mynd yn hapus i'w cartref oes. Mae'n galonogol gweld rhagor o bobl yn sylweddoli bod milgwn yn gwneud anifeiliaid anwes gwych ond rydym hefyd yn deall yn llwyr fod yn rhaid parhau â'n gwaith yn cefnogi milgwn a bod hynny'n dal yn her gyson.

Mae chwe mis a mwy wedi mynd heibio bellach ers y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig (CCA/EGM). Roedd y cyfarfod hwnnw'n hollbwysig i osod Gweledigaeth a Chenhadaeth y mudiad; cytunwyd arnynt yn ddemocrataidd a nhw fydd sylfeini ein gwaith wrth i ni symud ymlaen. Hebddynt ni allem fynd ati i ddatblygu Strategaeth newydd Achub Milgwn Cymru. Er nad oedd ambell un yn hapus â ffocws y CCA ar rasio cŵn a'r symud wedi hynny tuag at safiad gwrth-rasio, roedd y rhan fwyaf o'r aelodau yn cydnabod ei fod yn sylfaenol i'r weledigaeth a'r genhadaeth – ac na ellid datrys hyn heb fandad clir gan yr aelodau ar y cyfeiriad y dylai'r mudiad ei gymryd. Mae'r eglurder hwnnw gennym yn awr ac yn wir mae milgwn wedi bod yn uchel ar yr agenda wleidyddol yn San Steffan a Bae Caerdydd. O ganlyniad i'r newid yn ein safiad rydym wedi gallu cymryd rhan yn y dadleuon hynny, a chefnogi'r ymgyrch i roi terfyn ar rasio, rhywbeth na fyddem wedi gallu ei wneud yn yr un modd pe na baem wedi cael y ddadl honno. Yn ddi-ddorol, mae'r RSPCA, y Dogs Trust a Blue Cross yn ystod yr wythnosau diwethaf hefyd wedi newid eu safbwyntiau polisi i fod yn erbyn rasio milgwn.

Dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth cyn gynted ag yr oedd y CCA wedi rhoi'r cyfeiriad angenrheidiol ar gyfer y weledigaeth a'r genhadaeth, gyda'r Prif Weithredwr yn arwain ar y strategaeth ymgysylltu ar gyfer ymgynghori ac adborth. Rydym yn falch o'r cynhyrchu a'r ymdrech a wnaed ar y cyd

i ddatblygu'r strategaeth hon ond rydym hefyd yn gwbl agored i adborth ac awgrymiadau ar gyfer ei gwella. Bydd datblygiadau parhaus yn dylanwadu ar y gwaith a wneir er mwyn cyflawni'r amcanion strategol hyn ac felly daliwch ati i roi gwybod i ni beth yw eich barn. Nid ydym am i hon fod yn ddogfen sydd, ar ôl cael ei lansio yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, yn eistedd ar silff, mae'n rhaid iddi fod yn ddogfen fyw sy'n arwain pob un ohonom wrth inni ymdrechu i helpu mwy o helgwn. Mae copi o'r strategaeth i'w weld yn <https://greyhoundrescuewales.co.uk/wp-content/uploads/2022/10/Public-Strategy.pdf>

Er y byddem fel Ymddiriedolwyr wrth ein boddau yn siarad am filgwn a chŵn potsiwr drwy'r dydd, ein prif gyfrifoldeb yw sicrhau bod y mudiad yn gweithredu fel y dylai. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn cydymffurfio â llu o ddeddfwriaethau – o les anifeiliaid, i iechyd a diogelwch, i gyfraith cyflogaeth i ddiogelu data. I wneud hynny mae angen cyfres lawn o bolisiau sefydliadol i'n harwain ni, ein staff a'r gwirfoddolwyr. Mae'r rhain yn cynorthwyo ein prosesau ar gyfer monitro systemau a datblygiadau ac yn ein helpu i barhau i fod yn atebol am ein gweithredoedd. Roedd yr adroddiad yn 2021 wedi nodi nifer o ddiffygion yn hyn o beth ac felly rydym wedi rhoi cryn dipyn o'n hamser a'n hymdrech, ac amser y Prif Weithredwr, i unioni'r diffygion hyn ac mae'n bleser gennym adrodd fod system rheoli polisi ar waith bellach; mae'r polisiau a hepgorwyd wedi'u nodi; ac mae mwyafrif y polisiau bellach wedi'u diweddarau, gyda'r rhai olaf ar y gweill o gael eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn.

Mae llawer o welliannau ymarferol wedi digwydd o ganlyniad i'r gwaith hwn hefyd, a bydd llawer ohonynt

yn effeithio'n gadarnhaol ar staff a gwirfoddolwyr, gan gynnwys: mewnrwyd siop-un-stop newydd ar gyfer staff a gwirfoddolwyr; system agored ar gyfer adrodd; templedi sydd â brand newydd i roi cysondeb corfforaethol; llawlyfr staff wedi'i ddiwygio; symleiddio systemau ariannol; a symleiddio gweithdrefnau mabwysiadu.

Er ein bod yn hyderus bod y rhaglen newid enfawr hon o fudd i'r mudiad, rydym yn gwahodd adborth gan staff, ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr ac aelodau fel ei gilydd. Rydyn ni ar daith i atgyfnerthu dyfodol y mudiad bendigedig hwn. Am y rheswm hwnnw mae'n rhaid inni gadw llygad barcud ar ddatblygiadau allanol hefyd. Mae costau byw a rhagolygon ariannol y DU yn heriau hynod bryderus, nid yn unig o ran yr hyn y mae hynny'n ei olygu i'n staff a'n gwirfoddolwyr a'n hincwm, ond hefyd o ran effaith y costau cynyddol mewn prisiau ynni ar ein canolfan ailgartrefu a'n siopau yn ogystal â'n staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio gartref. Ac wrth gwrs rydym eisoes wedi gweld nifer fawr iawn o berchnogion yn gadael eu cŵn mewn canolfannau achub gan nad ydynt bellach yn gallu fforddio eu cadw, sef amodau economaidd sydd hefyd yn lleihau nifer y cartrefi sydd ar gael i ni ar gyfer ailgartrefu. Rhaid inni ystyried yr holl ffactorau hyn ar ben ein heriau mawr mewnol – yn enwedig Hillcrest sy'n agosáu at ddiwedd ei oes naturiol. Er bod y tîm wedi gweithio'n galed i wneud gwelliannau i'r cenelau, ar gyllideb gyfyngedig iawn, nid yw'r rhain yn atebion hirdymor a rhaid inni ddychwelyd at y dasg o ailadeiladu a chodi'r arian angenrheidiol i'n galluogi i wneud hynny. Nid yw'r rhain yn dasgau bychain ond gallwn eu gwneud gyda'n gilydd – er mwyn y mudiad gwych hwn ac er ein bod eisoes yn cyflawni cymaint, a does ond angen edrych yn ddwfn i lygaid milgi i wybod y gallwn wneud mwy.



# Gofal a Lles

## Canolfan Achub Hillcrest

Mae hi wedi bod yn flwyddyn arall hynod o brysur yng nghanolfan ailgartrefu Hillcrest, nid yn unig gyda'r dasg bwysicaf o dderbyn cŵn a dod o hyd i gartrefi newydd iddynt ond gyda datblygiad y ganolfan hefyd. Yn ogystal â'n gwaith ailgartrefu rheolaidd rydym wedi helpu nifer o helgwn wedi'u hanafu trwy ein cynllun Last Hope, gan eu gwella o'u hanafiadau a'u hadsefydlu i'w bywydau newydd.

Cyrhaeddodd pump o gŵn bach milgi i'r ganolfan yn amlwg wedi'u hesgeuluso a chawsant y gofal angenrheidiol i wella. Rydym yn dal i gefnogi ailgartrefu cŵn potsiwr trwy'r ganolfan a'n cynllun syth i'r cartref.

Pan ddaw cŵn i mewn i'r ganolfan, rydym yn asesu eu hiechyd, eu lles a'u hymddygiad, ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hysbaddu, eu brechu, a'u microsglodynnu. Bob dydd rydym yn ceisio rhoi profiadau i'r cŵn i'w paratoi at fywyd fel anifail anwes, gall hyn gynnwys mynd am dro i'r parc, mynd ar daith mewn car, neu ymlacio mewn amgylchedd cartref.

Gan fod cynnydd yn nifer y cŵn sydd angen eu hachub, rydym wedi datblygu'r ganolfan i wella ein cyfleusterau presennol – o adnewyddu'r cenelau, i ychwanegu llwybr a chyfoethogi ymhellach ar ein cae diogel. Rydym hefyd wedi codi ein capasiti i 19 o gŵn ac wedi gosod cenel ysbyty newydd fel y gallwn helpu'n well y cŵn sydd ein hangen fwyaf.

Nid yw'r ganolfan yn rhedeg ei hun ac yn ogystal â thîm gwych o staff rydym wedi bod yn recriwtio

gwirfoddolwyr er mwyn i ni fedru rhoi hyd yn oed mwy o amser a sylw i bob ci. Mae ein gwirfoddolwyr gwych yn Hillcrest yn amrywio o rai sy'n gwneud cynllun Dug Caeredin, i bobl sy'n ennill profiad gwaith a sgiliau, i bobl wedi ymddeol sydd eisiau helpu mewn ffordd ymarferol ac, wrth gwrs, y rheiny sydd ond eisiau treulio amser gyda chŵn. Yn wir, ni fyddai'n bosibl gwneud popeth a wnawn dros y cŵn heb eu cymorth nhw.

## Canfod Cartref Oes

Mae Achub Milgwn Cymru yn gwneud ei orau i gael cartrefi newydd llwyddiannus i filgwn a chŵn potsiwr, trwy broses baru effeithlon wedi'i chynnal gan y tîm ailgartrefu yn Hillcrest. Yn ystod 2021-2022 llwyddom i ailgartrefu 94 o filgwn a chŵn potsiwr. Mae'r tîm wrthi'n gyson yn adolygu, datblygu a gweithredu syniadau newydd i geisio symleiddio prosesau er mwyn i ni fedru helpu ac ailgartrefu hyd yn oed rhagor o filgwn a chŵn potsiwr yn llwyddiannus.

Rydym yn parhau i ddefnyddio'r dulliau rhithwir a gyflwynwyd yn ystod pandemig COVID-19 i gynnal archwiliadau ar gartrefi darpar fabwysiadwyr gan fod gwneud hynny yr un mor effeithiol â mynd yno

yn gorfforol, ac mae'n cyflymu'r broses fabwysiadu. Ar ôl adolygu ein meini prawf ar gyfer y rheiny sydd am ailgartrefu milgi neu gi potsiwr, rydym bellach yn asesu unigolion, a phob cais, ar sail ei rinwedd ei hun. Y gobaith yw y bydd hyn yn annog rhagor o bobl (y rheiny sy'n gweithio, er enghraifft, neu'r rheiny heb eu gardd eu hunain) i helpu ci mewn angen, oherwydd – trwy asesu'r cŵn sydd gennym yn ein gofal yn ofalus a thrylwyr – rydym yn credu bod paru yn bosibl yn y rhan fwyaf o achosion.

Caiff pobl sydd eisiau mabwysiadu eu hannog i gysylltu â ni i drefnu ymweld â'r ganolfan ailgartrefu, naill ai drwy apwyntiad neu ar un o'n diwrnodau agored sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw, er mwyn iddynt ddysgu rhagor am helgwn neu os hoffent dreulio peth amser yn cwrdd â milgwn a chŵn potsiwr cyn cyflwyno cais. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld cynnydd sydyn yn nifer y milgwn a'r cŵn potsiwr sydd angen ein cymorth. O ganlyniad, rydym hefyd yn bwriadu cynyddu ein capasiti yn Hillcrest i ateb y galw hwn ac i ddarparu ar gyfer cŵn sydd angen lle achub.

## Cŵn Therapi

Mae'r prosiect Cŵn Therapi yn bodoli i roi therapi i oedolion trwy gŵn ac i hyrwyddo milgwn a chŵn potsiwr fel anifeiliaid anwes. Rydym yn ymweld â sefydliadau addysgol, cartrefi gofal a lleoliadau eraill i gynorthwyo myfyrwyr ac oedolion a allai fod yn mynd trwy gyfnod anodd, neu'n hiraethu am gwmni cŵn.

Mae astudiaethau wedi dangos bod cŵn yn lleihau straen, pryder ac iselder yn ogystal ag yn lleddfu unigrwydd ac yn gwella iechyd yn gyffredinol. Mae mwytho ci yn ymlacio'r synhwyrau, a gwelwyd ei fod yn lleihau lefelau cortisol a hynny'n gostwng pwysedd gwaed.

Dechreuodd y prosiect yn 2016 ond tarfwyd arno ym mis Mawrth 2020 gan y pandemig. Ailddechreuodd ym mis Medi 2021 gydag ymgyrch recriwtio llwyddiannus a arweiniodd at gofrestru dros 40 o wirfoddolwyr a helgwn. Am y tro cyntaf gwahoddwyd cŵn nad oeddent yn helgwn golwg (sighthounds) ac mae'r rhain bellach yn ymweld ochr yn ochr â'n milgwn a'n cŵn potsiwr gan ddangos y gall ein helgwn ymwneud yn hapus â chŵn o bob lliw a llun. Mae ein

cŵn therapi i gyd yn cael eu hasesu gan arbenigwr cymwys ar ymddygiad cŵn i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y rôl.

Adnewyddwyd perthynas flaenorol ag Undebau Myfyrwyr Abertawe a Phrifysgol De Cymru a dechreuwyd ar fentrau newydd cyffrous gyda Choleg Gŵyr, cartrefi gofal Tŷ Mair a Hafod, Pwll Cenedlaethol Cymru, a Bywyd Campws ym Mhrifysgol Abertawe. Ym mis Medi 2022 ymestynnodd Cŵn Therapi i Sir Benfro trwy bartneriaeth newydd gyda Gofal Solfach.

Hyd at ddiwedd mis Medi 2022, roedd Cŵn Therapi wedi gwneud wyth ymweliad â sefydliadau addysgol, tri ymweliad â chartref gofal a dau ymweliad â sefydliadau eraill ar draws De Cymru.

Erbyn hyn rydym yn gofyn i'r sefydliadau yr ymwelwn â hwy am gyfraniad i sicrhau bod costau'r prosiect Cŵn Therapi yn cael eu talu'n llawn, gydag unrhyw incwm dros ben yn cael ei roi i gronfa gyffredinol Achub Milgwn Cymru er mwyn helpu'r cŵn yn ein gofal.



# Gweithio i Newid Pethau

Mae Achub Milgwn Cymru yn cydweithio â sefydliadau partner i sicrhau newid hirdymor i amddiffyn milgwn a chŵn potsiwr yng Nghymru.

Am hanner cyntaf y flwyddyn ddiwethaf rhoddwyd sylw i'r ymdrechion i sicrhau'r rheoleiddio cryfaf posibl ar rasio milgwn yng Nghymru. Arweiniwyd y gwaith hwn gan Weithgor Milgwn sy'n rhan o Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru dan gadeiryddiaeth Achub Milgwn Cymru; mae'r gweithgor hwn yn dwyn ynghyd BVA Cymru, Cartref Cŵn a Chathod Battersea, y Dogs Trust, ac RSPCA Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru yn mynychu hefyd.

Sicrhodd y gweithgor fod yr awdurdod lleol yn cwblhau ei raglen i gynnal ymweliadau yn arolygu rasio nos yn yr un trac rasio sydd ar ôl yng Nghymru. Mae'r gweithgor hefyd wedi llunio canllawiau ar arwynebau traciau i ategu'r cod ymarfer gwirfoddol a gyflwynwyd yn flaenorol ar gyfer lles milgwn yng Nghymru. Yn anffodus, nid yw'n ymddangos bod y naill na'r llall o'r dogfennau hyn wedi arwain at unrhyw welliannau ystyrlon i les y cŵn ar lawr gwlad.

Mae perthynas agos wedi datblygu gydag Aelodau cefnogol o'r Senedd a hyn wedi helpu i gadw lles milgwn ar flaen y meddwl. Trefnwyd digwyddiadau yn y Senedd (megis cwrdd ag Aelodau o'r Senedd ym mis Rhagfyr 2021), gofynnwyd cwestiynau mewn sesiynau llawn o'r Senedd a gohebwyd â Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae cynrychiolwyr Achub Milgwn Cymru hefyd wedi bod yn rhan o weithgor Llywodraeth Cymru sydd wrthi'n datblygu rheoliadau ar gyfer llochesi anifeiliaid yng Nghymru.



Yn y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ym mis Mawrth 2022, gwnaed newid mawr mewn polisi gyda mwy na thri aelod i bob un yn erbyn yn pleidleisio dros weithio tuag at Gymru heb rasio milgwn. Dilynwyd hyn yn syth gan benderfyniad i gefnogi'r ymgyrch i ddod â rasio milgwn i ben yng Nghymru.

Mae'r Gweithgor Milgwn wedi parhau â'i ymdrechion i reoleiddio rasio cŵn ers hynny, a sefydliadau partner, yn enwedig Hope Rescue, wedi ategu'r gwaith hwn o weithio tuag at waharddiad.

Mae Achub Milgwn Cymru wedi ymuno â'r Grŵp Hollbleidiol newydd ar gyfer Lles Anifeiliaid yn y Senedd gyda'r nod o sicrhau bod lles milgwn yn parhau i fod â phroffil uchel ymhlith Aelodau o'r Senedd ac i bwysu am newid. Roedd aelodau a chefnogwyr Achub Milgwn Cymru ymhlith y dros 35,000 o bobl a lofnododd ddeiseb Hope Rescue i wahardd rasio milgwn yng Nghymru a bu aelodau Achub Milgwn Cymru hefyd yn bresennol mewn digwyddiad "cerdded a siarad" gydag Aelodau a drefnwyd gan Hope Rescue yn y Senedd.

Rhoddodd Achub Milgwn Cymru bapur briffio i'r AS a gynigiodd waharddiad ar rasio milgwn mewn dadl yn Neuadd San Steffan yn dilyn deiseb ledled y DU gyfan; traddododd cynrychiolydd ar ein rhan gyflwyniad i Ford Gron o Aelodau Seneddol ar les milgwn gan roi tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i Bwyllgor Deisebau'r Senedd i gefnogi gwaharddiad ar rasio yma yng Nghymru.

Ar ddiwedd y flwyddyn, cafwyd newyddion pryderus bod y si ynghylch datblygu'r un trac rasio sydd ar ôl yng Nghymru wedi'i gwireddu a bod y datblygiad yn mynd yn ei flaen. Mae'n debyg y byddai'r datblygiad hwn yn arwain at gynnydd pedwarplyg mewn rasio milgwn yng Nghymru gyda chynnydd cymesur mewn anafiadau a chŵn sydd angen cartrefi, gan roi baich ychwanegol enfawr ar Achub Milgwn Cymru a mudiadau achub eraill.

Fodd bynnag, rhoddwyd hwb newydd i'r ymgyrch i ddod â rasio milgwn i ben yng Nghymru oherwydd y newid polisi gan yr RSPCA, y Dogs Trust a Blue Cross ddiwedd mis Medi wrth iddynt alw ar y cyd am ddiwedd ar rasio milgwn yn y DU. Trefnwyd cyfarfod i ddwyn ynghyd y sefydliadau hyn gyda Hope Rescue ac Achub Milgwn Cymru o fewn dyddiau i'r cyhoeddiad ac rydym yn edrych ymlaen at gefnogi ein partneriaid newydd i helpu i greu Cymru heb rasio milgwn ynddi.



## Cadw Mewn Cysylltiad

Mae tîm sy'n cynnwys staff a gwirfoddolwyr yn gofalu am waith cyfathrebu Achub Milgwn Cymru gan wneud yn siŵr bod unrhyw un sydd â diddordeb yn yr hyn yr ydym ni a'n cŵn yn ei wneud yn gallu cael gafael ar wybodaeth berthnasol a chyfoes.

Rydym yn ceisio estyn allan mewn cynifer o ffyrdd â phosib ac yn wirioneddol fwynhau'r gwahanol ddulliau o gadw mewn cysylltiad â chymuned y milgwn.

Mae ein gwefan yn cynnwys ystod eang o wybodaeth am ein mudiad, am gyfleoedd gwirfoddoli a ffyrdd gwahanol i'n cefnogi. Dyma lle gall unrhyw un gael gwybodaeth am y cŵn sydd ar gael i'w mabwysiadu; cyflwyno cais i fabwysiadu; ymuno â chynllun codi arian; neu ddod yn ofalwr maeth. Mae ein gwefan yn cynnwys digon o gyngor defnyddiol am ymddygiad cŵn a gofalu amdanynt, yn ogystal â blog wythnosol ar amrywiaeth o bynciau diddorol.

Mae tanysgrifwyr yn derbyn ein cylchlythyr deufisol, *Speedy News*, trwy e-bost. Mae hwn yn cynnwys crynodeb o newyddion a gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag Achub Milgwn Cymru.

Rydym yn rhannu gwybodaeth ar chwe llwyfan y cyfryngau cymdeithasol. Mae gan ein prif dudalen Facebook dros 8,500 o ddilynwyr a chynulleidfa sy'n tyfu'n gyflym. Mae gan ein cefnogwyr eu grŵp Facebook eu hunain – Cefnogwyr Achub Milgwn Cymru – gyda 4,500 o aelodau ac mae'n fforwm bywiog ar gyfer rhannu pytiau o fywydau eu cŵn,

hiwmor a thrafodaethau. Mae ein tîm Facebook yn postio am gŵn hardd yn ein gofal, mabwysiadu, gweithgareddau'r mudiad, digwyddiadau, a chodi arian. Mae fideos poblogaidd #trainingtuesday yn helpu ein mabwysiadwyr i feithrin perthynas hapus gyda'u cŵn. Mae pob dydd lau yn cael eu neilltuo i ddiolch i bobl, ac yn wir mae gennym ni gymaint i fod yn ddiolchgar amdano.

Mae gennym bresenoldeb bywiog ar Instagram, gyda dros 3,800 o ddilynwyr sy'n caru milgwn, ac mae dilynwyr newydd yn parhau i ymuno. Mae modd ein dilyn hefyd ar LinkedIn, Twitter, TikTok, a YouTube.

Ddwywaith y flwyddyn, mae aelodau yn derbyn *Greyhound Express* – sef cylchgrawn Achub Milgwn Cymru gyda chyfraniadau gan staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr eraill, a hefyd darnau a anfonir gan ein darllenwyr. Rydym yn gwerthfawrogi'r categori olaf hwn yn arbennig ac rydym bob amser yn annog ac yn croesawu deunydd a lluniau gan ddarllenwyr. Anfonir *Greyhound Express* yn ddigidol drwy e-bost, neu fel copi papur drwy'r post, yn dibynnu ar ddewis pob darlennydd. Mae swp o gylchgronau printiedig hefyd yn cael eu hanfon i'n siopau ac ar gael mewn digwyddiadau.

# Y Tîm



## Gwirfoddoli

Asgwrn cefn Achub Milgwn Cymru yw ein haelodau a'n cefnogwyr, a llawer ohonynt yn rhoi arian neu amser, sy'n hanfodol i'n llwyddiant. Mae'r mudiad yn hynod ffodus i gael cymaint o amrywiaeth o gefnogwyr ymroddedig gan gynnwys – ond heb fod yn gyfyngedig i – pobl sy'n cludo cŵn, staff siop, gofawyr maeth, cerddwyr cŵn, Ymddiriedolwyr, codwyr arian, a'r timau sy'n rheoli ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn y cyfryngau, yn ogystal â'r holl logisteg a gweinyddiaeth sy'n rhan o redeg elusen ganolig ei maint. Rydym yn ddiolchgar fod gennym 91 o wirfoddolwyr gweithgar ar hyn o bryd. Diolch!

Os ydych yn wirfoddolwr gweithgar mae'n bosibl eich bod wedi sylwi ar rai o'r newidiadau sydd wedi'u cyflwyno dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Cymal Cyfrinachedd newydd
- Symud o gynnal archwiliadau ar gartrefi yn gorfforol i wneud hynny yn rhithwir yn dilyn treial yn ystod y pandemig
- Blaenoriaeth ar newydd wedd ar gyfer y prosiect Cŵn Therapi. O ganlyniad, mae mwy o wirfoddolwyr nag erioed yn cefnogi'r maes hwn o'n gwaith

- Prif Weithredwr newydd sy'n rhoi'r arweinyddiaeth a'r cyfeiriad o ddydd i ddydd ar gyfer gwaith y mudiad
- Newidiadau ar lefel yr Ymddiriedolwyr gyda rhai yn gadael a rhai newydd yn dechrau ond hefyd, yn bwysig, y Bwrdd yn symud yn ymwybodol i fodel llywodraethu da drwy wahanu'r lefel strategol (Ymddiriedolwyr) a'r lefel weithredol (Prif Weithredwr).



## Ar y Gorwel

Ers nifer o flynyddoedd, mae holi aelodau mewn arolygon wedi dangos ysfa i gael mwy o bresenoldeb yng ngogledd Cymru, ac mae pwysigrwydd hyn hefyd wedi'i adleisio gan yr Ymddiriedolwyr, fodd bynnag nid oes neb wedi bod mewn sefyllfa i fwrw ymlaen â hyn. Mae'r Ymddiriedolwyr bellach wedi nodi rhywun sy'n fodlon ymgymryd â'r her a gobeithiwn gael rhagor o fanylion i chi yn fuan.

Newidiodd y pandemig sawl agwedd ar waith y mudiad a'r hyn y gallem ei wneud, ac yn anffodus roedd casglu ar y stryd yn un o'r pethau sydd wedi dioddef. Fodd bynnag, mae Pecyn i Drefnwyr Casgliadau wrthi'n cael ei ddatblygu a'r gobaith yw y bydd Casglu ar y Stryd

yn aildechrau yn fuan. Byddwn yn chwilio am ragor o wirfoddolwyr i drefnu'r rhain.

Diolch i bawb sy'n rhoi o'u hamser gwerthfawr i helpu Achub Milgwn Cymru.

Rydym bob amser angen mwy o wirfoddolwyr! Mae digon o gyfleoedd i gyd-fynd â sgiliau neu anghenion penodol pawb. Yn benodol, byddai ein siop ym Merthyr yn ddiolchgar iawn am fwy o gefnogaeth, ac rydym bob amser yn chwilio am ragor o erthyglau a straeon ar gyfer ein cylchlythyrau ac wrth gyfathrebu â'n cefnogwyr. Mae recriwtio pobl newydd i wirfoddoli dros y mudiad yn ffordd arall y gall pawb helpu hefyd!

## Ein Pobl

Mae newid sylweddol wedi bod yn y mudiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda llawer o'r newid hwnnw yn ymwneud â'n pobl a'r ffordd rydym yn gweithredu o ddydd i ddydd, yn bennaf oll drwy benodi ein Prif Weithredwr cyntaf a ymunodd â ni ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r rôl hon yn gyfrifol am holl elfennau gweithredol yr Elusen sydd nid yn unig yn rhoi modd i'r Ymddiriedolwyr ganolbwyntio ar strategaeth a llywodraethu da ond sydd hefyd yn rhoi cyfeiriad a chefnogaeth y mae mawr eu hangen i'n staff. Gwelwyd hefyd yr angen am Reolwr Manwerthu Wrth Gefn, rôl a fydd yn rhoi gwasanaeth gwyliau ac absenoldeb hanfodol i ni ledled ein holl siopau. Llanwyd y rôl hon ym mis Mai 2022 gyda'r ymgeisydd llwyddiannus yn un o'r gwirfoddolwyr o'n siop yn y Coed-duon.

Gyda'r un egwyddor mewn golwg, cyflwynwyd rôl 'staff wrth gefn' yn Hillcrest lle gallwn sicrhau bod gennym staff wedi'u hyfforddi'n llawn i gyflenwi yn ystod gwyliau, absenoldebau neu gyfnodau prysur, gan ein galluogi i roi gofal teilwng i'r cŵn yn ein gofal.

Rhoddwyd codiad cyflog o 4.2% i staff ym mis Mawrth 2022 ac rydym yn parhau i anrhydeddu ein hymrwymiad i Gyflog Byw Gwirioneddol <https://www.livingwage.org.uk/>

Cytunodd yr Ymddiriedolwyr hefyd i gydnabod y ddwy Wyl y Banc ychwanegol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gau'r siopau er mwyn i'r staff manwerthu gael y diwrnod i fwrdd. Yn rhannau eraill yr Elusen lle nad oedd yn bosibl cau (fel Hillcrest), rhoddwyd yr hyn a oedd yn cyfateb i wyliau ychwanegol i staff i'w cymryd maes o law.

Yn y flwyddyn i ddod byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod gennym yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni ein gwaith, ac adolygu, ffurfioli a gweithredu ein cynlluniau hyfforddi.

## Aelodau

Mae Achub Milgwn Cymru yn falch o fod yn fudiad wedi'i redeg yn ddemocrataidd gan yr aelodau. Ar hyn o bryd mae gennym 506 o aelodau.

## Cwynion, digwyddiadau a diogelu

Dwy gŵyn yn unig a dderbyniwyd eleni, a'r ddwy yn ymwneud â'r broses o faethu cŵn a chyfathrebu â gofawyr maeth. O ganlyniad i'r cwynion hyn, mae'r tîm wedi penderfynu rhoi atebion llawnach i ymholiadau gan ofalwyr maeth pryd bynnag y gallant – gan ystyried cyfyngiadau amser a dyletswyddau eraill y staff.

Rydym hefyd wedi bod yn ystyried gofyn i fabwysiadwyr faint o gyfathrebu dilynol yr hoffent ei gael gennym ni ar y cam mabwysiadu, a siarad yn sensitif â mabwysiadwyr ar ôl iddynt benderfynu dychwelyd ci, i weld a allem fod wedi gwneud unrhyw beth yn wahanol neu'n well i wella eu profiad ac/neu eu hatal rhag dychwelyd. Mae'r tîm yn cymryd pob cwyn o ddifrif ac yn ceisio dysgu oddi wrthynt. Nid ydym wedi derbyn unrhyw ymholiadau pellach gan yr achwynwyr hyn, a gobeithiwn felly ein bod wedi bodloni eu pryderon.

**Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau eleni.**



# Creu incwm

## Codi Arian a Digwyddiadau

Yn ystod y 12 mis diwethaf mae Achub Milgwn Cymru, fel llawer o elusennau eraill, wedi bod yn cael eu traed yn ôl oddi tanynt ar ôl y pandemig. Oherwydd ymdrechion ein staff, aelodau a chefnogwyr gwych, mae gweithgareddau a digwyddiadau codi arian nid yn unig wedi parhau ond wedi cael eu hadfywio. O ganlyniad, rydym wedi gallu datblygu ein strategaeth codi arian ymhellach.

Mae modd rhannu'r codi arian i'r meysydd canlynol: grantiau, digwyddiadau, rhoddion, rhoddion rheolaidd a chymynroddion. Yn y cyfnod 2021/22 cyfanswm yr incwm o godi arian oedd £144,998.27, sydd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r anifeiliaid sy'n dod i'n gofal. Mae'r prif ganlyniadau o'r codi arian yn cynnwys:

## Grantiau

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae Achub Milgwn Cymru wedi llwyddo i sicrhau cyfanswm o £18,595 mewn cyllid grant, sy'n cynnwys y canlynol:

- Bwrdd Milgwn Prydain Fawr (GBGB) – cawsom £5,000 i adnewyddu arwyneb yr Hillcrest Manège. Roedd system ddraenio'r manège wedi torri a'r arwyneb wedi mynd yn galed ac yn llaith, gan ei wneud yn risg bosibl i'r cŵn oedd wrth eu bodd yn rhedeg yn y man diogel.
- Sefydliad Moondance – yn garedig iawn, rhoddodd Moondance, sef ymddiriedolaeth leol, £3,595 i ariannu teledu cylch cyfyng yn Hillcrest, gan roi

diogelwch hanfodol i'r cŵn yn ein gofal a'r staff sy'n gofalu amdanynt. Roedd y prosiect hwn hefyd yn cefnogi monitro o bell a hyfforddiant ar gyfer cŵn sy'n dioddef o bryder wrth wahanu.

## Digwyddiadau

Fel elusen rydym wedi addasu digwyddiadau er mwyn sicrhau cydymffurfio â phandemig COVID-19. Fodd bynnag, roeddem wedi gallu cynnal Casgliad Nadolig, a digwyddiad Raise for Grays ym mis Mai. Mae digwyddiadau digidol wedi cynnwys sioeau hwyl i gŵn, ein harwerthiant Last Hope blynyddol, ras falŵn rithwir, a sawl raffl ar-lein. Yn gyfan gwbl, drwy'r digwyddiadau hyn oll rydym wedi codi £6,466.91.

## Rhoddion

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi derbyn £30,352.00 mewn rhoddion. Mae cefnogaeth gan ein rhoddwyr rheolaidd yn parhau, ac rydym yn ffodus i fod yn parhau i groesawu rhoddwyr newydd. Yn ogystal, codwyd £5,865.97 o ganlyniad i'n botwm rhoi ac apeliadau ar dudalen Facebook.

## Rhoi Rheolaidd

Mae nifer o'n cefnogwyr wedi ymwneud â'r mentrau canlynol:

- Loteri Clwb 100 – sy'n parhau i dyfu a ffynnu bob mis – wedi codi £2,470.66;
- Clwb Swper Hillcrest wedi codi £5,422;

- Clwb Dilynwyr Facebook wedi codi £628;
- Rhoddion rheolaidd Last Hope wedi codi £8,672.94;
- 'Noddi Ci' wedi codi £5,795.52, (gyda chefnogwyr newydd yn derbyn ein pecyn croeso newydd gwych!)

## Cymynroddion

O ganlyniad i haelioni ac ymrwymiad ein cefnogwyr gwych, buom yn ffodus i dderbyn cyfanswm o £6,032 mewn cymynroddion yn ystod y cyfnod adrodd ariannol hwn.

Unwaith eto mae'r adroddiad hwn yn dangos yn glir pa mor hanfodol yw rôl ein cefnogwyr niferus – y rheiny sy'n rhoi arian a'r rheiny sy'n ein helpu i gynnal y rhaglenni sy'n denu rhoddion. Felly diolch o galon, oddi wrth bob un ohonom i bob un ohonoch, am eich cefnogaeth barhaus. Os hoffech ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r mentrau hyn, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Manwerthu

Mae hi wedi bod yn flwyddyn dda arall i'n tîm Manwerthu, yr enillion wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol eto, a phob cyfle i hyrwyddo'r mudiad wedi'i fachu, gan godi arian, a helpu i integreiddio â'r gymuned.



Ym mis Awst, cymerodd Tîm Abertawe ran mewn marchnad a sioe ffasiwn hen ddillad. Arweiniodd Achub Milgwn y sioe ffasiwn, gan arddangos dyluniadau ffasiwn, a gwerthu stoc diillad hen a newydd ar stondin yn y farchnad. Roedd y digwyddiad wedi hyrwyddo'r mudiad i gwsmeriaid hen a newydd, a chodi bron i £500 o incwm ychwanegol.

Cynhaliwyd digwyddiad cerddoriaeth fyw gan Dîm y Fenni ym mis Gorffennaf a hwnnw wedi denu tyrfaoedd o bobl i wrando ar y band yn chwarae y tu allan i'r siop, gan ddenu cwsmeriaid y tu mewn i bori ein stoc a phrynu pethau. Cododd y digwyddiad dros £250 mewn rhoddion, ac wedi ysgogi sgwrs a arweiniodd at un o'n milgwn anoddaf i'w ailgartrefu yn cael ei faethu. Mae'n dal i ffynnu yn ei gartref newydd!

Mae ein Rheolwr Siop yn Abertawe wedi meithrin cysylltiadau â Choleg Gŵyr lle mae myfyrwyr, rhai ohonynt ag anawsterau dysgu, yn dod atom am chwe wythnos i adeiladu ar eu sgiliau. Mae'r profiad o weithio yn y siop, a chefnogaeth ac arweiniad Tîm Abertawe, yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'w bywydau. Er eu bod yn swil i ddechrau arni, erbyn diwedd y chwe wythnos mae'r myfyrwyr yn hyderus ac yn abl. Hyd yn hyn mae pob un o'r myfyrwyr wedi aros fel gwirfoddolwyr, ac roeddem wrth ein boddau yn gweld eu hyder newydd yn eu galluogi i gymryd rhan yn y sioe ffasiwn.




# Adroddiad Ariannol

## Tyfu incwm a rheoli cronfeydd

Yr amcan craidd i Ymddiriedolwyr fu datblygu'r mudiad i fod yn gynaliadwy ac i sicrhau'r cydbwysedd iawn o ran adnoddau mewn meysydd hollbwysig rhwng staff a gwirfoddolwyr



## Incwm Achub Milgwn Cymru 2019 - 2022



	MANWERTHU	CASGLIADAU	FFIOEDD AILGARTREFU	CODI ARIAN / GRANTIAU	ADHAWLIO TAW	RHODDION CYMORTH	NWYDDAU-RHODD CYMORTH	MÂN INCWM	CYFANSWM INCWM
2019-2020	£329,182	£17,941	£19,465	£77,770	£25,837	£9,944	£19,463	£3,300	£502,902
2020-2021	£167,018	£1,639	£27,374	£380,626	£32,462	£10,358	£0	£1,498	£620,975
2021-2022	£360,466	£1,192	£37,647	£155,727	£27,662	£21,420	£8,406	£1,602	£614,120


Roedd yr incwm am y flwyddyn yn dangos twf cryf o incwm manwerthu wrth i bethau ddychwelyd i weithgarwch arferol ar ôl y cyfyngiadau ar fasnachu yn ystod cyfnod COVID-19. Agorwyd siop newydd yn y Fenni hefyd. Mae gwerthiannau siopau manwerthu yn parhau i roi sail incwm ariannol i'r elusen, ac ar hyn o bryd yn fwy na 58% o gyfanswm incwm yr elusen.

## Manylion Incwm % 2021-2022



# Rheoli Gwariant



## Gwariant Achub Milgwn Cymru 2019 - 2022



	HILLCREST	ACHUB AC AILGARTREFU	GORBENION	DATBLYGU HILLCREST	SIOPAU	NWYDDAU	CYFANSWM GWARIANT
2019-2020	£95,483	£46,129	£38,137	£19,187	£253,133	£2,043	£454,112
2020-2021	£101,710	£35,933	£49,226	£41,051	£233,879	£1,621	£463,420
2021-2022	£113,875	£50,555	£82,234	£38,834	£280,189	£3,786	£569,472

Mae costau wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar y twf yn y manwerthu ac agor siop newydd yn y Fenni. Roedd gorbenion ychwanegol hefyd mewn perthynas â chryfhau cynhyrchu incwm ac ariannu recriwtio staff newydd. Mae'r costau pennaf yn ymwneud ag ochr manwerthu'r elusen (49% o gyfanswm y costau), ond mae hyn yn dal i gynhyrchu cyfraniad net o tua £80k yn erbyn yr incwm a gynhyrchir. Mae'r costau cyffredinol yn unol â'r disgwyl ac yn dal i ddangos gwared ar gyfer y cyfnod.

## Manylion Gwariant % 2021-2022



Mae 'Cyfrifon wedi'u Dilysu' gan ein harchwilwyr Rimmer a May mewn dogfen ar wahân ac yn ddatganiad ariannol llawn ar gyfer Achub Milgwn Cymru am 2021-2022, a gellir ei weld yn [greyhoundrescuewales.co.uk/annual-accounts](http://greyhoundrescuewales.co.uk/annual-accounts)

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi nodi nad yw'r flwyddyn adrodd (o un Cyfarfod Blynnyddol i'r llall) yn cyd-fynd â blwyddyn adrodd ariannol y mudiad a byddwn yn cywiro hyn yn ystod y cyfnod nesaf.

# Datblygu'r Mudiad

Mae hon wedi bod yn flwyddyn llawn newidiadau i Achub Milgwn Cymru.



Mae hon wedi bod yn flwyddyn llawn newidiadau i Achub Milgwn Cymru. Mae hyn o ganlyniad i wneud penderfyniad ymwybodol i gwblhau'r adolygiad sefydliadol a gwneud gwelliannau mawr i sicrhau'r buddion pennaf posibl ar fuddsoddiad; llywodraethu da; a chynaliadwyedd ariannol y mudiad am flynyddoedd lawer i ddod.

Rydym wedi cyrraedd carreg filltir fawr gan mai dyma'r tro cyntaf yn hanes Achub Milgwn Cymru i ni gael fframwaith o staff gwbl broffesiynol ar bob lefel yr elusen. Mae ein Rhaglen Newid wedi bod yn sail i lawer o'r trawsnewid ac mae hyn, ynghyd â datblygu ein strategaeth ar gyfer y dyfodol, wedi gosod llwybr ar gyfer ehangu a gwella ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

Dechreuwyd o ddirif ar ein Rhaglen Newid ym mis Hydref 2021 pan ffurfiwyd Pwyllgor Llywio Newid yn cynnwys grŵp o Ymddiriedolwyr a thrwy benodi Rheolwr Newid cymwys a phrofiadol i'w cefnogi. Roedd y rhaglen wedi'i threfnu'n bennaf ar sail yr 20 argymhellion i newid a amlinellwyd mewn adolygiad sefydliadol annibynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd yr argymhellion hyn yn ymdrin â themâu amrywiol gan gynnwys strwythur yr elusen, cyfathrebu mewnol ac allanol, llywodraethu a pholisi, strategaeth, a rheoli gwybodaeth, ymhlith eraill. Rhwng mis Hydref 2021 a mis Medi 2022, bu'r Pwyllgor Llywio yn gweithio ar roi'r argymhellion hyn ar waith ar gyflymder priodol ac mewn trefn resymegol i osgoi unrhyw wrthdaro rhwng newidiadau.

Daeth carreg filltir fawr gyntaf y prosiect ym mis Mawrth 2022 pan roddwyd cynigion ar gyfer gweledigaeth a chenhadaeth ddiwygiedig i bleidlais yr aelodau mewn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig (CCA/EGM). Roedd hyn yn newid mawr i'r mudiad gan mai dyma'r tro cyntaf i'r aelodaeth gael y cyfle i newid sefyllfa'r

elusen mor uniongyrchol drwy broses ddemocrataidd. Roedd yn bwysig penderfynu ar ein gweledigaeth a'n cenhadaeth o fewn 6 mis cyntaf y broses gan y byddai'n sail yn y pen draw i unrhyw newidiadau a ddeuai wedi hynny. Yn y misoedd yn arwain at y Cyfarfod, bu sawl cylch ymgynghori â rhanddeiliaid gan gynnwys staff, gwirfoddolwyr, aelodau, elusennau eraill a chynrychiolwyr y diwydiant rasio. Gwnaed llawer o ymdrech i gael gwared ar ragfarn o'r broses a pheidio â dylanwadu'n ormodol ar rhanddeiliaid y naill ffordd na'r llall. Fel gydag unrhyw broses ddemocrataidd, bydd yna rai sy'n anfodlon â'r canlyniad. Er i ni weld pocedi bach o hyn, yn enwedig yn yr wythnos yn dilyn y bleidlais, ni chafwyd unrhyw effaith negyddol ar weithrediadau na'n perthynas â rhanddeiliaid.

Yn dilyn y CCA ym mis Mawrth 2022, cyflymodd y newid dan reolaeth y Pwyllgor Llywio. Rhwng mis Mawrth a mis Medi 2022, gwnaed gwaith gwella sylweddol gan gynnwys:

- Diwygio a gwella holl gyfryngau cyfathrebu Achub Milgwn Cymru sydd ar gyfer y cyhoedd
- Adolygu holl bolisiau'r mudiad, a rhoi system rheoli polisiau ar waith
- Adolygu sut mae'r mudiad yn rheoli gwybodaeth
- Asesu'r holl systemau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y mudiad – pwy sydd â mynediad iddynt, ar ba lefel, a pham
- Recriwtio ar gyfer y Prif Weithredwr (CEO) cyntaf a'i benodi
- Gwella cyfathrebu mewnol y mudiad
- Datblygu strategaeth y mudiad ar gyfer y dyfodol i sefydlu ein hamcanion a sut y byddwn yn eu cyflawni

Mae datblygu ein strategaeth yn bwysig am ddau brif reswm. Yn gyntaf, mae'n gyswllt hollbwysig rhwng lefel strategol uchel y weledigaeth a'r genhadaeth a lefel weithredol y busnes o ddydd i ddydd. Yn ail, bydd yn sicrhau y bydd y buddion a ddaw yn sgil y Rhaglen Newid yn parhau i dyfu i'r dyfodol, yn hytrach na dim ond bod yn atebion tymor byr a anghofir amdanynt ar ôl 12 mis.

Digwyddodd y broses o ddatblygu'r strategaeth dros nifer o fisoedd. Mewn cyfarfod yn fuan ar ôl y CCA, cynhaliodd yr Ymddiriedolwyr weithdy lle penderfynwyd ar gasgliad o themâu a mynd ati i ehangu ar y weledigaeth a'r genhadaeth o dan bob thema. Roedd yn bwysig ar y cam hwnnw i wahanu'r gweithredol oddi wrth y strategol. Bwriad yr Ymddiriedolwyr oedd gosod yr hyn yr oeddent am i'r

mudiad ei gyflawni. Mater i'r Prif Weithredwr newydd fyddai penderfynu sut i gyflawni pob amcan.

Yn dilyn y gweithdy, aeth y strategaeth drwy sawl cylch ymgynghori gyda staff, gwirfoddolwyr, elusennau partner ac aelodau cyn ei chwblhau. Y canlyniad yw dogfen sy'n amlinellu'n gryno ein nodau ac amcanion ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, a'n gwerthoedd a'n safonau yn sail iddi.

Yn aml mae'n anodd argyhoeddi pobl fod angen Rhaglen Newid, yn enwedig yn ystod 6 i 9 mis cyntaf y broses. Mae hyn oherwydd bod llawer o'r buddion

## Llywodraethu

Mae llywodraethu da yn gyfrifoldeb ar bob Ymddiriedolwr ond mae penodi un Ymddiriedolwr i arwain yn benodol ar hyn yn ddi-os wedi helpu'r Bwrdd i ganolbwyntio drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf ar broblemau'r Bwrdd (Byrddau) blaenorol a sut i wneud gwelliannau parhaol.

Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i godi Bwrdd Achub Milgwn Cymru i'r safon angenrheidiol – rydym yn falch o ble rydym wedi cyrraedd, er ein bod yn llwyr sylweddoli bod llywodraethu da yn broses gyson a pharhaus, ac rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig iddi.

Mae'r Rhaglen Newid wedi esgor ar nifer fawr o welliannau i'r llywodraethu, naill ai'n fwriadol neu o ganlyniad i welliannau neu arbedion effeithlonrwydd a wnaed mewn manau eraill. Mae hyn i'w ddisgwyl yn dilyn adolygiad sefydliadol o'r bôn i'r brig.

Cafwyd gwelliannau allweddol fel a ganlyn:

- prosesau newydd ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig (CCA) gan gynnwys y gwaith ymgysylltu, dulliau pleidleisio a gwybodaeth ategol.
- datblygu'r Strategaeth sydd wedi codi o'r weledigaeth a'r Genhadaeth y penderfynwyd arnynt yn ddemocrataidd (yn y CCA), a'r dulliau ymgysylltu ac ymgynghori a ddefnyddiwyd i lywio'r gwaith hwn.
- mynd ati'n ffurfiol i wahanu'r strategol a'r gweithredol trwy benodi'r Prif Weithredwr cyntaf, sydd wedi arwain at drawsnewid rolau'r Ymddiriedolwyr. Nid yw Ymddiriedolwyr bellach yn rheolwr llinell uniongyrchol ar unrhyw aelod o'r tîm, sy'n sicrhau ffiniau mwy cyson a chlir i'r holl staff.
- adolygiad cynhwysfawr ar bolisiau sydd wedi cynnwys diweddar sylweddol ar bob maes polisi yn ogystal â nodi nifer fawr o bolisiau sydd ar goll (a'r rheiny wedi'u datblygu neu wrthi'n cael eu datblygu ers hynny); ac, yn hollbwysig, cyflwyno proses broffesiynol i reoli polisiau i ddiogelu rhag unrhyw broblemau pellach yn y dyfodol.

mwy o faint yn dod yn llawer hwyrach. Yn Achub Milgwn Cymru, bydd gofyn i bobl wneud newidiadau dro ar ôl tro i'r ffordd y maent yn gweithio ac efallai na fyddant yn deall pam ar y pryd. Ffordd ddefnyddiol o feddwl am y Rhaglen Newid hon yw dychmygu Achub Milgwn Cymru fel planhigyn sydd wedi tyfu'n rhy fawr i'w botyn. Byddwn yn treulio'r 12-18 mis cyntaf yn adeiladu 'potyn' mwy i'r mudiad dyfu iddo drwy wneud newidiadau i'r ffordd y mae'r elusen yn gweithio. Ni fydd o reidrwydd yn tyfu yn y cyfnodau cynnar hynny, ond unwaith y bydd y potyn hwnnw yn ei le, rydym wedi gosod ein hunain yn barod i dyfu llawer mwy yn y dyfodol.

- ymrwymiad i fod yn fudiad Digidol yn Gyntaf, sef cael atebion clyfar a digidol i fod yn sefyllfa ddiodyn er mwyn sicrhau arbedion yn ogystal â chynnydd mewn atebolrwydd. Mae hyn yn cynnwys defnydd llawn o systemau busnes Google sydd gan y mudiad eisoes – i sicrhau rheoli fersiynau a thryloywder (o ran storio a defnyddio dogfennau).

- cyflwyno system rheoli perfformiad ar gyfer y Prif Weithredwr a, thrwy ei ymestyn, ar gyfer yr holl staff.

- adolygu trefniadau cyfansoddiadol y mudiad, a hynny wedi arwain at nodi nifer o faterion ynghyd ag atebion i ddatrys y problemau hyn drwy gynnig (i'r CCA) drawsnewid y mudiad yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) ynghyd â chyfansoddiad newydd.

- Cofrestr Risgiau newydd ar y cyd i'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr

- adran newydd 'datgan buddiannau' ar frig pob cyfarfod

- dechrau ar log i gofnodi camau gweithredu'r Ymddiriedolwyr, sef dogfen fyw i olrhain a chofnodi'r camau gweithredu hynny sydd i'w wneud (a phwy sy'n gyfrifol amdanynt), gan sicrhau nad yw eitemau'n mynd ar goll mwyach – mae hyn hefyd yn cynyddu atebolrwydd. Yn dilyn penodi'r Prif Weithredwr, mae log y camau gweithredu yn cynnwys y rhai a ddirprwywyd iddo ef. Adolygir pob cam gweithredu sydd i'w gwneud ar ddechrau pob cyfarfod yr Ymddiriedolwyr.

- gwella atebolrwydd trwy rannu cyfrifoldeb yn gliriach a datblygu Cynllun Dirprwyo

- ailgyflwyno Grŵp Swyddogion (gweler tudalen 18)

## Pwy ydyn ni

Mae adran 'Cwrdd â'r Tîm' ar y wefan, sy'n dal i gael ei datblygu, yn rhestru enwau a rôl pob Ymddiriedolwr (a staff Achub Milgwn Cymru).

Gwirfoddolwyr yw Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac o'r herwydd gall fod pwysau allanol sy'n effeithio ar yr amser y gallant ei roi i Achub Milgwn Cymru, adlewyrchir hyn yng nghofnodion cyfarfodydd y flwyddyn ddiwethaf.



# Presenoldeb yng Nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr

Medi 2021 hyd at Hydref 2022

YMDDIRIEDOLWR	19.9.21	3.10.21	17.10.21	21.11.21	19.12.21	30.1.22	20.2.22	10.4.22	12.6.22	24.7.22	4.9.22	2.10.22
Alain Thomas*	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Magdalena Gryczmanska*	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Claire Lawson*	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Carolyn Graves-Brown	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ym
Debra Allen*	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Tina Dunstan*	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Claire Gardner*	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	CA	✓	✓	✓
Jon Trew	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Darren Pritchard	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Sarah Marsh	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Matthew Crowle	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Vall Ball	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Steve Tom	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Kirty Davies-Pryor	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Malcolm Eames	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Essex Havard	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

[CA = Caniatâd i fod yn absennol, Ym = Ymddiswyddo, \* = Pwyllgor Llywio Newidiadau]

Cytunwyd hefyd i ailsefydlu Grŵp Swyddogion sydd ag awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniadau brys na all aros i fwyafrif yr Ymddiriedolwyr ymateb trwy e-bost neu tan gyfarfod llawn nesaf yr Ymddiriedolwyr. Mae hyn hefyd wedi bod yn fforwm mwy priodol i adolygu ac arwain gwaith a datblygiad y Prif Weithredwr. Fel arfer mae'r grŵp hwn yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Ymddiriedolwr Adnoddau Dynol. Mae'r grŵp hwn yn rhoi diweddariadau manwl yng nghyfarfod llawn nesaf yr Ymddiriedolwyr ac yno, os oes angen, gellir cadarnhau penderfyniadau hefyd.

Yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn 2021, cytunwyd i sefydlu Pwyllgor Llywio Newidiadau i

weithio ochr yn ochr â'r Rheolwr Newid newydd i weithredu'r rhaglen datblygu sefydliadol y cytunwyd arni. Nodir aelodau craidd y grŵp uchod ond mynychodd Ymddiriedolwyr eraill hefyd ad hoc. Cyfarfu'r grŵp yn wythnosol yn y cyfnod cyn y CCA ym mis Mawrth 2022 a mwy nag 20 gwaith yn ystod y flwyddyn.

Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr yn bersonol ddydd Sul 15 Mai i gynnal gweithdy ar fanylion y strategaeth newydd. Cafwyd cyfarfodydd ad hoc hefyd gan gynnwys y rhai yn ymwneud â'r rowndiau recriwtio ar gyfer swyddi'r Rheolwr Newid a'r Prif Weithredwr.